


Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Beth wnaethom rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026





# Pwy ydym ni

Ni yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)




Rydym yn sicrhau bod **nyrsys, bydwragedd** a **chymdeithion nyrsio** yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud eu swyddi yn dda ac mewn ffordd ddiogel.




Rydym yn cadw rhestr o'r holl bobl a all weithio fel **nyrsys** a **bydwragedd** yn y DU. Rydym hefyd yn cadw'r rhestr o **gymdeithion nyrsio** yn Lloegr.

Gelwir y rhestr hyn yn **Gofrestr**.




Mae rhai geiriau mewn **print trwm**. Ceir rhestr o'u hystyron ar y diwedd.

# Rydym yn adeiladu NMC newydd



Roedd y flwyddyn hon yn un anodd. Wnaethom ni ddim gwneud popeth cystal ag y dylem fod wedi gwneud.




Roedd llawer o hyn oherwydd pethau ddigwyddodd yn y gorffennol.



Effeithiodd hyn ar lawer o bobl:

- Pobl sy'n gweithio yma.



- Nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.



- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.



Mae gennym arweinyddion newydd yn yr NMC sy'n ein helpu i wneud pethau'n iawn.

# Beth wnaethom rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026

## Edrych i mewn i rai pryderon oedd gan bobl am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio



Mae pobl yn gallu dweud wrthym pan mae nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio’n rhoi triniaeth wael iddynt. Digwyddodd hyn 7,152 gwaith y llynedd.

Byddwn yn gwrando ar y pryderon hyn ac yn penderfynu a oes angen arnom i edrych i mewn iddynt.




Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf nid ydym wedi gwneud hyn mor gyflym ag yr hoffem wneud.



Roedd hyn oherwydd nad oedd yr NMC yn lle da i weithio ac nad oedd pobl yn medru gwneud eu gwaith yn dda.



Rydym wedi bod yn gwneud penderfyniadau yn gynt a gwneud pethau'n fwy diogel i'r cyhoedd, nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sydd ynghlwm â'r pryderon yr ydym yn edrych i mewn iddynt.



Rydym eisiau gwneud yr NMC yn lle saffach i weithio ynddo fel ein bod yn medru helpu ein staff i wneud eu gwaith yn dda.



## Fe wnaethom benderfyniadau anodd a phwysig ynghylch arian

Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio dalu am fod ar ein Cofrestr.




Mae ein ffoedd wedi bod yr un faint ers 2015.



Mae’n costio mwy i ni i wneud ein gwaith.



Felly rhaid oedd i ni godi ein ffoedd.



Fe wnaethom ni hefyd newid y ffordd mae’r NMC wedi ei drefnu a chwtogi nifer y bobl sydd yn gweithio yma.

## Fe wnaethom ddatrys problem ynghylch sut yr ydym yn ychwanegu pobl at ein Cofrestr



Am lawer o flynyddoedd nid oeddem bob amser yn dilyn y canllawiau cywir i sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn ddiogel i ymuno â’n Cofrestr.



Wedi i ni adael i bobl deimlo'n saff i fynegi unrhyw bryderon wrthym, daeth aelod o'r staff atom a dweud wrthym am broblem.



Gwrandawsom arnynt.




Dywedasom ei bod yn ddrwg gennym wrth y bobl gafodd eu heffeithio.



Dywedasom y dylasem fod wedi dilyn y broses gywir.



Gwnaethom ymateb yn gyflym i ddatrys y broblem.



Gwnaethom wella’r ffordd y byddwn yn gwneud pethau.




Bydd y newidiadau hyn yn ein helpu i ddiogelu’r cyhoedd.

## Rydym yn gwneud yr NMC yn lle gwell i weithio ynddo




Ym mis Gorffennaf 2024 dywedodd adroddiad nad oedd yr NMC yn lle da i weithio ynddo.




Y llynedd fe wnaethom gynllun newydd sy’n dweud sut y byddwn yn newid pethau dros y tair blynedd nesaf.




Rydym wedi cyflawni blwyddyn gyntaf y cynllun hwn.



Siaradom gyda llawer o staff a gwnaethom **werthoedd** newydd sy’n rhaid i bawb yn yr NMC eu dilyn.



Mae ein **gwerthoedd** yn dweud beth sy’n bwysig i ni.

- Rydym eisiau sicrhau bod yr NMC yn deg wrth bawb.



- Rydym eisiau newid pethau fel bod llai o fwlio a hiliaeth yn yr NMC.




- Gwnaethom ysgrifennu rheolau ynghylch hiliaeth a fyddant yn helpu myfyrwyr, nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i drin pobl yn deg, a sicrhau hefyd eu bod hwythau'n cael eu trin yn deg.



- Gwnaethom greu mwy o ffyrdd i staff deimlo'i bod yn saff i ddweud wrthym pan ydynt yn poeni ynghylch rhywbeth.



## Gwnaethom fwy i sicrhau bod addysg yn dda

Rydym yn gweithio gyda phrifysgolion i sicrhau eu bod yn dysgu myfyrwyr i ddarparu gofal da.




Rydym yn gwirio eu bod yn dysgu myfyrwyr yn dda ac yn gwneud yn siwr eu bod yn cyrraedd ein **safonau.**

**Safonau** yw rheolau ynghylch sut y dylai pethau gael eu gwneud. Mae **safonau** yn helpu pawb i wybod beth i'w ddisgwyl.



Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'n helpu i ddarganfod problemau a'u datrys yn gynt. Rydym yn gweithio gydag eraill i wneud hyn.

## Gwnaethom yn siwr bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn medru gwneud eu gwaith yn dda




Rhaid i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ddilyn rheolau y'u gelwir yn **Gôd**.



Rhaid iddynt hefyd ddangos eu bod yn medru darparu gofal diogel i bobl. Gelwir hyn yn **Ailddilysiad**.




Rydym yn penderfynu a oes angen i ni wella ein **Côd** ac **Ailddilysiad**.



Siaradom gyda llawer o bobl a wnaeth rannu eu syniadau gyda ni.




Mae hyn yn ein helpu i ddeall sut y gallwn wneud y **Côd** a'r **Ailddilysiad** yn gryfach.

## Gwnaethom edrych ar sut i gefnogi myfyrwyr fwy fyth



Mae myfyrwyr yn gwneud peth o'u dysgu mewn llefydd lle mae pobl yn derbyn gofal iechyd go iawn, fel ysbytai a chartrefi gofal.



Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn eu helpu i ddysgu sut i ddarparu gofal da i bobl.



Rydym yn edrych ar y ffyrdd y mae'r math yma o ddysgu'n gweithio orau.



Siaradom gyda llawer o bobl a rannodd eu syniadau gyda ni.



Bydd yr hyn a ddywedodd pobl wrthym yn ein helpu i benderfynu a oes angen arnom ni i newid sut mae myfyrwyr yn dysgu.


## Fe wnaethom gefnogi nyrsys a bydwragedd uwch i wneud eu gwaith gorau



Mae nyrsys a bydwragedd uwch wedi bod drwy fwy o hyfforddiant. Maent yn cadw’r hyfforddiant hwn wedi ei ddiweddaru.



Mae hyn yn golygu eu bod yn medru gwneud mwy o bethau na nyrsys a bydwragedd eraill.




Mae arnom eisiau cefnogi’r nyrsys a bydwragedd hyn i wneud eu gwaith gorau. Felly fe wnaethom ni ysgrifennu **egwyddorion**.

Mae **egwyddorion** ychydig yn debyg i reolau. Maent yn ei gwneud yn glir sut y dylai nyrsys a bydwragedd uwch weithio.



Mae rhai sefydliadau'n ein helpu i brofi'r egwyddorion hyn a'r ffyrdd y maent yn gweithio.

## Fe wnaethom gadw mwy o bobl yn ddiogel



Gwnaethom wella sut yr ydym yn helpu pobl y gallent fod mewn perygl o gael eu brifo neu eu trin yn wael.



Gwnaethom ddarparu gwell hyfforddiant ac offerynnau i'n staff fel y byddent yn medru gwella sut y maent yn:

- Edrych allan am bobl a allent fod mewn perygl



- Cefnogi pobl i aros yn ddiogel



- Cynghori pobl eraill sy’n gweithio yn yr NMC ynghylch sut i gadw pobl yn ddiogel.

# Fe wnaethom ni ddysgu mwy am y bobl ar ein Cofrestr







Ddiwedd mis Mawrth 2026 roedd dros 867,000 o bobl ar ein Cofrestr.



Roedd:

- Dros 799,000 o nyrsys



- Dros 48,000 o fydwragedd



- Dros 6,000 a allai wneud y ddwy swydd



- Dros 14,000 o gymdeithion nyrsio.



Mae llawer o wahanol bobl ar ein Cofrestr:

- Dywedodd 11 allan o 100 wrthym mai dynion oeddynt.



- Mae dros 33 allan o 100 o gefndiroedd leiafrifol ethnig.



- Mae gan ychydig dros 1 allan o 100 anabledd.

# Yr arian a wariasom



Costiodd £132.4 miliwn i ni i wneud ein gwaith.



Gwariasom dros hanner yr arian hwnnw yn edrych i mewn i bryderon ynghylch rhai nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.




Costiodd £7.2 miliwn i ni i ofalu am ein Cofrestr a'i gadw wedi ei ddiweddaru.

# Edrych ymlaen



Mae rhai pobl wedi gweld newidiadau positif, ond ‘dyw eraill ddim.




Hon yw blwyddyn dwy o’n cynllun i wneud pethau’n well.



Byddwn yn parhau i:

- Wneud yr NMC yn well lle i weithio



- Sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn deg



- Edrych i mewn i bryderon ynghylch nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio mewn ffordd sy’n gynt ac yn decach



- Dal i gefnogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddarparu gofal da i bobl.

# Ystyron y geiriau

**Ailddilysiad**
Y ffordd y mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn dangos i ni eu bod yn medru darparu gofal diogel i bobl.

**Bydwragedd**
Pobl sydd wedi'u hyfforddi i roi cymorth, gofal a chyngor i fenywod yn ystod beichiogrwydd, esgor ac ar ôl i'r babi gael ei eni.

**Côd**
Rheolau sy'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu dilyn er mwyn darparu gofal diogel.

**Cofrestr**
Rhestr o'r holl bobl sydd â'r hyfforddiant cywir sc sy'n bodloni ein safonau i weithio fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu gydymaith nyrsio yn Lloegr. Pobl sy'n gallu darparu gofal da, diogel.

**Cymdeithion nyrsio**
Mae hon yn rôl yn Lloegr. Mae cymdeithion nyrsio wedi eu hyfforddi i weithio gyda nyrsys i gefnogi a gofalu am gleifion.

**Egwyddorion**
Tipyn yn debyg i reolau. Maent yn gwneud yn glir sut y dylai nyrsys a bydwragedd weithio.

**Hiliaeth**
Dyma beth yw cael eich trin yn wael oherwydd e.e:

- lliw eich croen
- siarad iaith wahanol.

**Gwerthoedd**
Mae ein gwerthoedd yn dweud beth sy’n bwysig i ni.

**Nyrsys**
Pobl sydd wedi eu hyfforddi i roi gofal diogel a charedig i helpu pobl sydd â phroblemau iechyd ac i helpu pobl i gadw’n iach.

**Safonau**
Rheolau yw’r rhain ynghylch sut y dylai pethau gael eu gwneud. Mae safonau yn helpu pawb i wybod beth i’w ddisgwyl.

## Credits

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd y papur hwn ar gyfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Y mae'n cynnwys deunydd o'r Inspired Easy Read Collection ac ni chaiff ei ddefnyddio yn unrhyw fan arall geb ganiatâd Inspired Services Publishing Ltd.

Cyf: ISL130 26. Mehefin 2026.

www.inspiredservices.org.uk

**Speaking Up Together** -
creu gwybodaeth Easy Read

Rheolydd nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T 020 7637 7181
www.nmc.org.uk